

PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

DYDD MAWRTH, 19 MEDI 2023

PRESENNOL Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

G. Davies D. Jones

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion

A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol

M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

A. Eynon, Prif Gyfieithydd

Rhith-Gyfarfod

- 9.57 - 10.02 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth y Cynghorydd Ll. M. Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD EAN & AN YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i E.A.N. ac A.N. i ysgol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol o gyfeiriad y cartref, sef 3 milltir, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl gan E.A.N. ac A.N. am gludiant ysgol oherwydd bod yr ysgol o fewn y pellter cerdded statudol.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf